# Cofnodion Cyfarfod 3/10/2024

**Presennol:** Cyng Dilys Evans, Eifion Roberts, Eluned Jones, Eric Williams, Moira Mai, Huw Symonds, Clare Mackintosh a Jacqueline Allen, Dilwyn Morgan (Aelod lleol Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng Fiona Hopkins, Sion McGuinness, a Rhys Evans.

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

**Hefyd yn bresennol:** Sion Wynne o gwmni M-Sparc ar gyfer rhan gyntaf y cyfarfod.

**Cyflwyniad M-Sparc:** Croesawyd Sion Wynne i'r cyfarfod, ac fe eglurodd fod M-Sparc yn Barc Gwyddoniaeth a sefydlwyd gan Brifysgol Bangor, sydd â'u pencadlys yn y Gaerwen ar Ynys Môn, ond sydd wedi sefydlu yn y Bala dros dro am rai misoedd. Eglurodd mai eu rôl yw cydlynu cefnogi busnesau, ail wefru busnesau a thargedu grantiau busnes. Eglurodd eu bod yn medru argraffu mewn 3-D, argraffu mygiau, crysau T a rhaglennu robots etc. Dywedodd hefyd eu bod yn medru trwsio gliniaduron neu dabledi, ac y bydd Gweithdy Trwsio yn y dref ar Hydref 4ydd. Diolchwyd i Sion am ei gyflwyniad, a dywedodd Sion ei fod yn gobeithio y byddent yn gadael gwaddol i'r dref. Estynnwyd croeso i aelodau'r cyngor i ymweld â'r gweithdy.

1. **Y Maer:** Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Maer, y Cyng Dilys Evans. Eglurodd ei bod wedi bod mewn cyfarfodydd gyda'r Clwb Garddio a Merched y Wawr, ac wedi mynychu Lansiad gwefan fro Tegid 360. Rhoddodd adroddiad hefyd o gyfarfod Pwyllgor Meirionnydd Un Llais Cymru ar 2.10.24 pryd y cafwyd trafodaethau gyda Llais ar ddiffyg meddygon a deintyddion, diffyg gwasanaeth iechyd meddwl, a thrafodaeth ar y gwasanaeth Ambiwlans Awyr.
2. **Buddiant:** Nid oedd datganiad o fuddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 12/9/24.
4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**
    i. Sedd Wag y Cyngor: Adroddwyd na fu ymateb i'r hysbyseb am gyfle i alw etholiad. Cytunwyd felly i fwrw 'mlaen gyda'r broses i gyfethol aelod newydd i'r cyngor. Cytunwyd i wneud trefniadau i anrhydeddu John C Williams ar ddechrau'r cyfarfod nesaf o'r cyngor.

ii. Ethol Dirprwy Faer: Cytunwyd i ethol y Cyng Moira Mai yn Ddirprwy Faer i'r dref.
iii. Tomen y Bala – cytunwyd i drafod gyda'r Clwb Rotari y bwriad i osod meinciau ar Domen y Bala, a nodwyd y bydd y gwaith i docio'r gwrych i wella gwelededd o'r domen yn digwydd gyda thoriad olaf y gwair am 2024.
iv. Cynllun Creu Lle: Nodwyd fod cyfarfod penodol i ystyried y cynllun wedi ei drefnu at Hydref 10fed.
v. Cynllun Celf Canol Trefi: Dangoswyd y drafft terfynol o'r dyluniad, a nodwyd y bydd y gwaith paentio ar wal y Coop yn cychwyn yn fuan.
vi. Materion Stryd Fawr – Adroddwyd fod cais wedi ei wneud i NMWTRA am dabl o gyfrifoldebau gwahanol awdurdodau am wahanol agweddau o'r Stryd Fawr i hwyluso trafodaethau yn y dyfodol, ond na chafwyd ymateb eto.

5. **Cyngor Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Dilwyn Morgan, a dywedodd ei fod mewn trafodaeth gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â chyflwr palmentydd rhwng Cysgod y Coleg a'r dref, a rhan uchaf Heol Tegid. Dywedodd hefyd ei fod wedi cyfarfod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yng Nghanolfan Henblas, ac wedi cael cyfle i drafod materion sy'n effeithio ar drigolion hŷn yr ardal (tlodi tanwydd, credyd pensiwn etc).

6. **Y Bala – Yma o Hyd:** Cafwyd diweddariad o'r dathliadau, sef gweithdy llusernau a phared ym mis Hydref, ac yna Noson Gwobrau Cymunedol y Bala fis Tachwedd. Nodwyd fod tocynnau ar gael ar gyfer y Noson Wobrwyo, a bod angen creu panel o feirniaid.

7. **Is-bwyllgorau:**
Is Bwyllgor Nadolig: Adroddwyd fod goleuadau ychwanegol wedi cael eu harchebu.
Is Bwyllgor Asedau: Derbyniwyd adroddiad gynhwysfawr ar asedau'r dref gan y Cyng Eluned Jones, Moira Mai ac Eric Williams. Tynnwyd sylw at:
- Yr angen am faner ger y Ganolfan Hamdden erbyn gwanwyn 2025.
- Yr angen i adnewyddu'r faner ar y Domen erbyn gwanwyn 2025.
- Yr angen i wneud trefniant i lanhau'r llochesi bws ger Mawnog Fach.
- Gyflwr toiledau cyhoeddus y Plase a'r Grin (Y Cyng Dilwyn Morgan i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd).
- Gyflwr bin cyhoeddus ger Siop DE ar y Stryd Fawr.
- Gyflwr hysbysfyrddau'r dref (Y Cyng Dilwyn Morgan i gysylltu gyda Thim Tacluso Ardal Ni Cyngor Gwynedd).
- Gyflwr y plac ar Bolyn Signal y Lein ar y Grin.
- Gyflwr rhai o'r meinciau ar y Stryd Fawr.
- Yr angen i lanhau Cofeb y Rhyfel erbyn Sul y Cofio fis Tachwedd.
- Yr angen i gadarnhau trefniadau gwirio Defibs y dref (Dilwyn Morgan a'r clerc i drafod).
- Yr angen i drwsio Cadwyn y Maer – Clare Mackintosh i gydlynu'r gwaith.
- Yr angen i holi ADRA am ardal chwarae Cysgod y Coleg – y clerc i gysylltu.

Is bwyllgor Tref Gyfeillgar: Nodwyd fod slabiau'r palmant yn ardal cofeb Tom Ellis yn beryglus – y Cyng Dilwyn Morgan i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd fel mater o frys.

Is Bwyllgor Bioamrywiaeth: Trafodwyd yr angen i glirio blodau oddi ar y bocsys ar y Stryd Fawr (Jacquie a Fiona i drafod), a nodwyd yr angen i roi costau blodau yng nghyllideb flynyddol y cyngor.
Is bwyllgor cyllid: Cytunwyd y bydd angen cyfarfod o'r is bwyllgor yn ystod mis Tachwedd.
Is bwyllgor Twristiaeth Gynaliadwy: Ni chafwyd adroddiad.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

Un Llais Cymru Meirionnydd: Gweler adroddiad y Maer uchod.
Cymdeithas Gymunedol y Bala a Phenllyn: Derbyniwyd copi o gofnodion cyfarfod Medi 6ed.
Cwmni Pum Plwy Penllyn: Adroddwyd o y gwaith o sicrhau cyllid ar gyfer uwchraddio Canolfan Bro Tegid yn parhau, a thendr ar gyfer y gwaith adeiladu wedi ei gyhoeddi ar Sell to Wales.

8. **Materion Cynllunio**: Nid oedd ceisiadau i'w hystyried.

*9.* **Materion Cyllid:**

**i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £19,056.38 yn y cyfri cyfredol, £26,691.54 yn y cyfri cadw a £362.57 yng Nghronfa'r Maer. Nodwyd fod balans o £2,629.46 wedi ei glustnodi tuag at gostau dathliadau Y Bala – Yma o Hyd, a £3,000 wedi ei glustnodi ar gyfer datblygiad y Cae Astro.

**ii.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, taliad cyflog y Clerc, a thaliad treth incwm HMRC.

**10. Gohebiaeth:**

i. Clwb Rygbi'r Bala – cais am drwydded adeilad a fyddai'n caniatáu agor bar yn y clwb. Darllenwyd fanylion y Ffurflen Gais oedd yn nodi'r oriau agor arfaethedig, ac fe ddarllenwyd llythyr gan y Clwb Rygbi yn egluro cefndir y cais. Atgoffwyd yr aelodau fod y Clwb Rygbi wedi nodi, wrth adeiladu'r clwb yn wreiddiol, nad oedd ganddynt fwriad i wneud cais am drwydded. Cafwyd trafodaeth hir ar y mater, a nodwyd fod deiseb wedi ei pharatoi gan breswylwyr Glannau Tegid a Trem y Ffridd, yn codi pryderon am lefelau sŵn ac aflonyddu etc. Cafwyd sylwadau o blaid ac yn erbyn y cais, a nodwyd fod gan y cyngor y dewis i gymeradwyo'r cais fel y mae, i'w wrthwynebu yn gyfan gwbl, neu i'w gefnogi gyda amodau ar yr oriau agor. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd, o fwyafrif, i gymeradwyo'r cais pe byddai'r oriau agor yn cael eu cyfyngu rhwng 1pm a 9pm.

ii) Un Llais Cymru – derbyniwyd gwybodaeth am sesiwn ar Rôl Llywodraethiant ac Atebolrwydd Cynghorau Cymuned a Thref.

iii) Cyngor Gwynedd – derbyniwyd ymgynghoriad ar fannau pleidleisio'r dref, gorchymyn parcio'r dref, a rhybudd cau Heol Arenig dros dro ar gyfer gwaith hanfodol.

iv) Parc Cenedlaethol Eryri – derbyniwyd cais i fynychu'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tre i drafod problemau parcio yn ystod y tymor ymwelwyr.

11. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:**

Nid oedd materion ychwanegol i'w trafod.

12. Daeth y cyfarfod i ben am 9.15pm a bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 7 Tachwedd 2024.



ARWYDDWYD.......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)